

# Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri)

## See all updates

Nod y gronfa hon yw cryfhau cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig, gan adeiladu gallu i gryfhau ac uwchraddio cyflwyno dros fyd natur yn y dyfodol, ac annog ennyn diddordeb cymunedau'n weithredol.

Crëwyd y dudalen: Medi 2023.

## Ai hon yw'r rhaglen iawn i chi?

- Ydych chi'n unigolyn neu'n sefydliad sy'n gweithio gyda threftadaeth naturiol yng Nghymru?
- A oes angen ariannu arnoch i gynllunio neu gyflwyno prosiect sy'n seiliedig ar fyd natur?
- A yw eich prosiect yn canolbwytio ar wella bywyd gwylt a bioamrywiaeth yng Nghymru o fewn ac o amgylch y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig?
- A oes angen grant rhwng £50,000 a £250,000 arnoch?

Os gwnaethoch chi ateb **oes** i'r cwestiynau hyn, yna mae'r **Gronfa Rhwydweithiau Natur** yn addas i chi.

## Trosolwg

Nod y Gronfa Rhwydweithiau Natur yw gwella cyflwr a chydnerthedd **rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig**. Mae'n elfen allweddol o gyflwyno Rhaglen Rhwydweithiau Natur ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae gwella cyflwr a chysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig yn eu galluogi i weithredu'n well fel **rhwydweithiau natur**. Mae rhwydweithiau natur yn ardaloedd hanfodol a chydnerth lle gall cynefinoedd a rhywogaethau ffynnu ac ehangu. Bydd adfer cysylltedd yn y rhwydweithiau hyn yn:

- atal dirywiad pellach mewn rhywogaethau a chyflwr cynefinoedd
- cefnogi adferiad byd natur
- gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd

Mae diogelu safleoedd yn dibynnu ar sefydliadau cryf, llywodraethu da a chynllunio prosiectau mewn ffordd gadarn. Felly, bydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur hefyd yn **cefnogi datblygiad prosiect ac adeiladu gallu**

ar gyfer prosiectau adferiad byd natur yn y dyfodol. Gallai'r gwaith hwn gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig iddynt):

- datblygu partneriaethau
- ymgynghori ac ymgysylltu â thirfeddianwyr/cymunedau
- arolygon ecolegol
- astudiaethau dichonoldeb
- dylunio cynlluniau
- gwaith paratoadol arall ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol

Gall adeiladu gallu helpu datblygwyr prosiectau a phartneriaid i ddangos canlyniadau, creu modelau busnes cadarn sydd â'r potensial i ddenu buddsoddi a darparu sylfaen dystiolaeth i'w gwneud hi'n haws i arloesi dulliau newydd ac annog y defnydd ohonynt.

Mae'r gronfa hon hefyd yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas. Gall hyn fod yn hanfodol i lwyddiant hirdymor prosiectau adferiad byd natur, ac yn aml hefyd bydd manteision ehangach ar gyfer iechyd a lles pobl.

Gallwch gyflwyno uchafswm o **ddau** gais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur: un ar gyfer cyflwyno prosiect cyfalaf ac un ar gyfer datblygu prosiect/adeiladu gallu. Dylai prosiectau fod am ddwy flynedd ar y mwyaf, ond rydym yn rhagweld y bydd prosiectau datblygu/adeiladu gallu yn fyrrach.

## Beth yw'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?

Mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd Ramsar a Pharthau Cadwraeth Forol. I wirio a yw tir neu fôr wedi'i gynnwys yn y diffiniadau hyn, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

## Terfyn amser ymgeisio

12 hanner dydd ar 23 Tachwedd 2023

[Ar ôl i chi ddarllen yr arweiniad isod, ewch i'n porth ymgeisio i wneud cais](#)

[Expand All accordions](#)

## Nodau'r gronfa

Drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, rydym am gefnogi:

- Gweithredu ar safleoedd gwarchodedig neu'r rhwydweithiau ecolegol sy'n eu cynnal. Dylai'r prosiect hefyd ddangos rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar draws Cymru. Gall hyn gynnwys gweithredu y tu allan i safleoedd gwarchodedig a fydd yn fanteisiol i'r rhwydwaith yn gyffredinol (gweler 'Beth rydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau' isod).
- Camau gweithredu y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn weithredol ynddynt ac elwa ohonynt. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfranogiad gweithredol gydag ystod amrywiol o bobl a chymunedau (yn enwedig grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol) i ehangu'r rhwydwaith o bobl sy'n ymgysylltu â byd natur, a gyda gwella cydnerthedd safleoedd gwarchodedig a'r rhwydweithiau ecolegol sy'n eu cefnogi.
- Gweithgarwch datblygu sy'n galluogi sefydliadau i adeiladu eu gallu a'u sylfaen dystiolaeth i gynllunio prosiectau adferiad natur a fydd yn fanteisiol i'r rhwydwaith ac yn cyrraedd cymunedau sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys adeiladu gallu i ddenu buddsoddiad ariannol i brosiectau adferiad natur er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth ar raddfa fwy.

**Expand All accordions**

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i bob tirfeddiannwr preifat a sefydliad sy'n gweithio gyda threftadaeth naturiol yng Nghymru. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn ymwybodol o feddu ar y caniatadau, y trwyddedau a'r cydsyniadau cywir sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgaredd ar y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig neu'r ardaloedd cyfagos, a'ch bod wedi sicrhau'r rhain yn barod neu'n gweithio tuag at eu sicrhau. Mae'n rhaid i'r ardal yr ydych yn ei wella fod yng Nghymru, ond gallwch chi/eich sefydliad fod wedi'ch lleoli unrhyw le yn y DU.

### Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau

Mae'n rhaid i weithgareddau greu buddion uniongyrchol ar gyfer y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig nawr neu yn y dyfodol. Bydd hyn fel arfer yn ymwneud â gwelliannau'n uniongyrchol ar safle neu ar leoliadau cyfagos a fydd yn gwella cyflwr nodweddion a chysylltedd safleoedd. Gall gynnwys y canlynol hefyd:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- cefnogi sefydliadau i gyrraedd cymunedau sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- Cefnogi sefydliadau neu unigolion sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn ymwneud â phrosiectau ar safleoedd a/neu ar rwydweithiau ecolegol sy'n eu cefnogi. Gallai hyn gynnwys cynllunio, staffio, hyfforddiant, prentisiaethau, cyllid gwyrdd, caffael tystiolaeth drwy arolygon, adolygiadau llywodraethu, etc.

Gall prosiectau weithredu ar y tir/môr o fewn a thu hwnt i'r safleoedd gwarchodedig eu hunain. Er enghraift, gallai prosiectau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig:

- wella cysylltedd ecolegol rhwng safleoedd gwarchodedig penodol?
- gweithredu er budd cynefinoedd neu rywogaethau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig lle y maent hefyd yn nodweddion o safleoedd gwarchodedig cysylltiedig
- canolbwytio ar rywogaeth nad yw'n nodwedd o safle, cyn belled â'i bod yn creu buddion o ran cyflwr, cysylltedd neu weithrediad ecosystem safleoedd penodol a'u nodweddion
- fod o fudd i gynefin neu rywogaeth nad yw'n nodwedd o safle ar hyn o bryd, ond y mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod felly

- fod yn seiliedig ar ardaloedd nad ydynt o dan warchodaeth statudol ar hyn o bryd, ond sydd â lefel debyg o bwysigrwydd o ran bioamrywiaeth
- lleihau effeithiau allanol ar safleoedd gwarchodedig i wella cyflwr, er enghraifft o ddyddodiad nitrogen neu gytrefu INNS
- adfer swyddogaethau ecosystem o amgylch safleoedd gwarchodedig ar raddfa y dirwedd

Ym mhob un o'r achosion hyn, rhaid i gais gynnwys cyfiawnhad sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros gymhwystera'r prosiect.?Dylid enwi'r safleoedd a'r nodweddion penodol sy'n elwa o'r prosiect ac esbonio'r sail resymegol ecolegol drosto.

Bydd disgwl i chi ddangos bod eich prosiect arfaethedig yn cyflwyno yn erbyn yr amcanion rheoli neu amcanion cadwraeth ar gyfer y safle dan sylw.?

Byddwn yn ceisio ariannu cyfuniad o weithgarwch cyfalaf a refeniw ar draws portffolio o brosiectau. I gael mwy o ddealltwriaeth, gweler 'Paratoi eich cais' isod.

## Nodi safleoedd posib ar gyfer cysylltedd

Bydd camau gweithredu i wella cysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig yn fwyaf effeithiol os caiff eu lleoli i wella patrymau cysylltedd presennol yn y dirwedd. Mae camau gweithredu'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol os ydynt yn atgyfnerthu, yn ehangu neu'n creu cysylltiadau rhwng rhwydweithiau cynefinoedd.

Mae'r Map Rhwydweithiau Natur ar gael i helpu gyda hyn a gellir ei gyrrchu trwy MapDataCymru a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

- MapDataCymru: [Cysylltedd Cynefin a Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth](#)
- [Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru](#). Dewiswch 'archwilio' o'r brif ddewislen, yna cliciwch ar y tab 'Gwytnwch Ecosystem'.

Mae'r mapiau'n dangos rhwydweithiau wedi'u modelu ar gyfer amrywiaeth o gynefinoedd sy'n dangos pa mor dda y mae ardaloedd cynefin yn debygol o fod wedi'u cysylltu ar draws Cymru ac â'r Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth. Maent yn dynodi cysylltedd presennol tebygol yn benodol rhwng ac o amgylch safleoedd gwarchodedig ar gyfer cynefinoedd gwahanol. Mae'r mapiau hefyd yn cyflwyno byffer generig o amgylch yr holl safleoedd gwarchodedig i dynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu yn agos at safleoedd presennol.

Mae'n bwysig nodi mai allbynnau wedi'u modelu yw'r mapiau hyn a'u bwriad yw cyfeirio camau gweithredu, yn hytrach na'u rhagnodi. Efallai y bydd allbynnau model eraill ar gael, ac mae nodweddion cysylltiol eraill yn y dirwedd, megis cyrsiau d?r, cloddiau neu hyd yn oed ymylon ffyrdd, a allai gael eu hystyried wrth gynllunio prosiectau.

Expand All accordions

## Dyddiadau allweddol

- rhaglen yn agor ar **20 Medi 2023**
- terfyn amser ymgeisio:**?12 hanner dydd ar 23 Tachwedd 2023**
- hysbysir ymgeiswyr am benderfyniadau erbyn **1 Mawrth 2024**

- rhaid cwblhau prosiectau cyfalaf erbyn **1 Mawrth 2026**

Expand All accordions

## Paratoi eich cais

### Pa gostau allwch chi ymgeisio amdanyst?

Mae'n bwysig i chi nodi pa rai o gostau eich prosiect sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol –

#### Costau cyfalaf:

- prynu eitemau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli tir, megis coed, planhigion gwrychoedd, ffensys ac eitemau gwaith cyfalaf sy'n ofynnol i gyflwyno'r canlyniadau
- costau cyffredinol a geir wrth osod y gwaith cyfalaf, sy'n cynnwys costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio offer
- prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased ar y farchnad
- prynu, dylunio a gosod paneli dehongli, gan gynnwys costau cyfieithu
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach
- ffioedd ymgynghorydd a phensaer, costau dylunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol megis ffioedd sy'n gysylltiedig â chynaladwyedd amgylcheddol ac economaidd
- Ffioedd a chostau'r cais cynllunio. Mae ffioedd a godir am ganiatadau, trwyddedau a chydysniadau statudol yn gymwys, ar yr amod eu bod yn hanfodol i gyflwyno'r prosiect cyfalaf. Gellir talu'r rhain cyn dechrau ar y prosiect ond mae'n rhaid eu hysgwyddo ar ôl mis Mawrth 2024 a dangos dystiolaeth ohonynt yn yr un ffordd â gwariant arall.
- ariannu wrth gefn ar gyfer costau cyfalaf ychwanegol (argymhellwn tua 10% o arian wrth gefn)
- ariannu ar gyfer chwyddiant i ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn costau cyflwyno'r prosiect yn y dyfodol

#### Costau refeniw

- amser staff
- adennill costau llawn neu gostau sefydliadol craidd tuag at gyflwyno'r prosiect
- costau gweithgareddau (digwyddiadau, lluniaeth, llogi ystafell, etc)
- gwerthuso
- cynllunio'r prosiect, er enghraifft astudiaethau dichonoldeb, arolygon neu waelodlin ecolegol, ymgynghori â thirfeddianwyr/y gymuned, adolygiadau llywodraethu, cyngor ymgynghorol ar gyllid gwyrdd, etc
- costau hyfforddi a phrentisiaethau
- costau cyfieithu
- ariannu wrth gefn ar gyfer costau refeniw ychwanegol (argymhellwn tua 10% o arian wrth gefn)

Ni chewch gynnwys costau ar gyfer cynnal a chadw parhaus neu gostau rhedeg yn y dyfodol y tu hwnt i gyfnod y prosiect.

#### Iaith Gymraeg

Mae'n rhaid i chi gymryd y Gymraeg i ystyriaeth ym mhob agwedd ar eich gwaith a dweud wrthym sut y byddwch yn hybu ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Bydd angen i chi ddangos sut y byddwch chi'n cynnig darpariaeth ddwyieithog yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys y gyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y ffurflen gais.

Os hoffech ragor o wybodaeth am sut i wneud hyn, bwrw golwg ar [ein harweiniad ar gyfer cyflwyno prosiect dwyieithog yng Nghymru](#). Gallwch hefyd gysylltu â'n tîm cymorth iaith Gymraeg yn [cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk](mailto:cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk)

## Dogfennau ategol

Mae'n rhaid i'r dogfennau ategol a ganlyn gael eu huwchlwytho gyda'ch ffurflen gais. Dylai maint y ffeiliau fod yn llai na 20MB.**?Noder** bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.?

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol arnom:

- dogfen lywodraethu (gorfodol os oes gan eich sefydliad un o'r rhain)
- Cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych yn sefydliad). Os ydych yn unigolyn, yn sefydliad sydd newydd ei ffurfio neu os nad oes gennych gyfrifon sy'n llai na 12 mis oed, bydd angen i ni weld cyfriflenni banc yn yr un enw â'ch cais am y tri mis llawn diwethaf.
- cynllun prosiect (gorfodol ar gyfer pob prosiect) - [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#)
- cytundeb partneriaeth (gorfodol os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (gorfodol os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)?
- delweddau, gan gynnwys o leiaf un map sy'n dangos lleoliadau gwaith cyfalaf?
- cyfrifo adenill costau llawn (os yn berthnasol)?
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)

## Gofynion perchnogaeth trydydd parti

Gall tir eich prosiect (a all gynnwys gwahanol leiniau o dir dros ardal eang) fod yn eiddo i drydydd parti neu nifer o drydydd partïon (gan gynnwys perchnogion preifat). Os mai dyna'r achos, dylid rhoi cytundebau cyfreithiol ar waith rhyngoch chi a phob tirfeddiannwr.

Nid oes ffurf ragnodedig ar gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundebau tirfeddiannwr trydydd parti. Fel lleiafswm, dylai'r cytundebau tirfeddiannwr gynnwys y canlynol:

- manylion y partïon
- cadarnhad yngylch sut mae'r tir wedi'i ddal (rhydd-ddaliad neu ar brydles)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran y tirfeddiannwr i gynnal a chadw'r tir a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau'r grant (fel y bo'n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw warediad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti
- y bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir y trydydd parti tan 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'r cytundebau tirfeddiannwr i ni er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Bydd angen cwblhau'r cytundebau tirfeddiannwr a'u rhoi ar waith cyn rhyddhau arian grant ar gyfer gwaith ar bob llain o dir sy'n eiddo i drydydd parti. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i'r perchenog lofnodi ein telerau ac amodau.

Gallwch gynnwys costau addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti, gan gynnwys costau ceisio cyngor cyfreithiol, fel rhan o'r costau yn eich cais.

## Trwyddedau, caniatadau a chydsyniadau

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos yn eu cais eu bod yn ymwybodol o'r caniatadau a'r trwyddedau perthnasol ar gyfer cyflwyno eu prosiect, a'u bod yn gweithio tuag at gaffael y rhain.

### Ariannu cyfatebol

Nid oes unrhyw ofynion o ran cyfraniadau arian parod neu anariannol ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur. Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau arian parod, anariannol neu ar ffurf gwirfoddolwyr y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

Ni chewch ddefnyddio'r grant hwn fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, nac i'r gwrthwyneb.

### Gwerthuso

Rydym yn argymhell i chi ystyried gwerthuso o ddechrau eich prosiect. Po fwyaf gofalus y mae prosiectau'n cyllidebu ar gyfer eu gwerthusiad, yr uchaf fydd ansawdd yr adroddiad terfynol.?Rydym wedi argymhell lleiafswm gwariant ar werthuso. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn ein [canllaw gwerthuso](#).?

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno adroddiad gwerthuso. Mae angen cyflwyno hwn cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant. Dylai hyn gynnwys manylion am sut mae cydnerthedd ecosystemau a/neu gysylltedd cynefinoedd wedi elwa o'r buddsoddiad (neu y bydd yn elwa yn y dyfodol). Dylech rannu data a methodoleg monitro perthnasol.

Byddwn hefyd yn disgwyl i chi rannu data geo-ofodol ar ble mae eich prosiect wedi gweithio er mwyn gwella setiau data CNC. Caiff arweiniad pellach ar hyn ei ddarparu os dyfernir grant i chi.

[Expand All accordions](#)

## Sut i wneud cais

[Gallwch wneud cais mor fuan ag y byddwch yn barod](#). **23 Tachwedd 2023** am 12 hanner yw'r terfyn amser ymgeisio.

Cyn i chi ymgeisio, gwnewch yn si?r eich bod yn darllen ein [nodiadau cymorth ymgeisio](#) yn ofalus a gwirio eich bod yn gymwys.

**Noder:** mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio'r un ffurflenai cais ar draws amrywiaeth o'n rhagleni. Mae angen ateb rhai cwestiynau'n wahanol ar gyfer y rhaglen hon, felly mae'n rhaid i chi ddarllen y [nodiadau cymorth ymgeisio](#) yn ofalus er mwyn deall pa wybodaeth sydd ei hangen a ble. Peidiwch â defnyddio'r

eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein.

Rydym wedi dylunio'r broses ymgeisio i fod mor syml â phosib ac yn gofyn dim ond am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom.

[Pan fyddwch chi'n barod, gallwch wneud cais am grantiau rhwng £50,000 a £250,000](#)

[Expand All accordions](#)

## Nodiadau cymorth ymgeisio a thempled

- [nodiadau cymorth ymgeisio am grantiau rhwng £50,000 a £250,000](#)
- [canllaw derbyn grant](#)

Ar gyfer pob cais, mae angen i chi gyflwyno cynllun prosiect gyda'ch cais – [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#).

[Expand All accordions](#)

## Ar ôl i chi wneud cais

### Asesu eich cais

Byddwn yn asesu ceisiadau cymwys yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

- cyfraniad at adferiad natur safleoedd gwarchodedig yng Nghymru
- ennyn diddordeb amrywiaeth ehangach o bobl ym myd natur
- nifer y swyddi/prentisiaethau/hyfforddeiaethau a gynigir, yn enwedig i bobl ifanc
- gwerth am arian
- cynaladwyedd hir dymor

### Meini prawf cydbwysol

Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn blaenorriaethu prosiectau a fydd yn:

- gweithio mewn ardaloedd sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r gwaith o ddarparu Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth o fewn y Rhaglen Rhwydweithiau Natur fel y nodir ar y Map Rhwydweithiau Natur
- cynrychioli gwasgariad daearyddol a bioamrywiol ar draws Cymru ac ar draws yr holl brosiectau [Cronfa Rhwydweithiau Natur \(rownd un a dau\)](#)
- ennyn diddordeb y cyhoedd ym myd natur yn weithredol

- darparu cyfuniad o brosiectau cyfalaf a refeniw ar draws y portffolio

## Os yw eich cais yn llwyddiannus

Byddwn yn **hysbysu ymgeiswyr am ein penderfyniadau ar xx 2024**. Byddwn yn darparu arweiniad ychwanegol ar ein gofynion monitro ac amodau cyfreithiol bryd hynny.

Bydd pob grant o dan £100,000 yn cael ei dalu mewn tri rhandaliad. Byddwch yn derbyn 50% o'ch grant unwaith y byddwch wedi derbyn caniatâd i ddechrau ar eich prosiect. Byddwch yn derbyn y 40% nesaf hanner ffordd drwy eich prosiect, pan fydd y 50% cyntaf wedi'i wario. Rydym yn cadw'r 10% olaf o'ch grant yn ôl hyd nes bod y prosiect wedi'i gwblhau.

Bydd grantiau o £100,000 a throsodd yn cael eu talu mewn ôl-daliadau, mewn rhandaliadau rheolaidd, ar wrth dderbyn dystiolaeth o wariant.

[Expand All accordions](#)

## Gwybodaeth ychwanegol

### Rheoli cymorthdaliadau

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cadarnhau bod ei gais wedi'i ystyried a'i wirio mewn perthynas â rheolau rheoli cymorthdaliadau.

Ar adeg cyhoeddi'r arweiniad hwn, nid yw cyllid cyhoeddus ar gyfer sefydliadau bellach wedi'i lywodraethu gan reolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn fel y nodir yn Erthygl 107–109 Cytundeb Gweithredu'r Undeb Ewropeaidd a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.?

Yn hytrach, mae pob penderfyniad grant a wneir ar ôl 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 yn ddarostyngedig i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd y DU. Nodir egwyddorion hynny ym Mhennod Tri (Cymorthdaliadau) Teitl XI (Tegwch yn y Farchnad) Rhan Dau (Masnach, Trafnidiaeth, Pysgodfeydd a Threfniadau Eraill) y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Disgwylir y bydd arweiniad pellach, ymgynghoriad ac o bosib deddfwriaeth newydd yn y maes hwn i adeiladu ar yr egwyddorion hynny. Bydd disgwyl i chi gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau a bodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol. Bydd cytundebau yr ymrwymwyd iddynt yn cael eu hadolygu a'u hamrywio'n unol â hynny.?Rydym yn cadw'r hawl i bennu gofynion pellach ac amodau ychwanegol mewn perthynas â'r mater hwn.?

Fel ymgeisydd, chi sy'n gyfrifol am wirio a oes angen cliriad cymorth gwladwriaethol neu reoli cymorthdaliadau.?Dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydych yn si?r a fydd angen cliriad ar brosiect ai beidio.

### Gweithio ar dir preifat

Ceir llawer o gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ar dir sy'n eiddo i unigolion preifat neu sefydliadau er-elw. Gall prosiectau gyflwyno gwaith neu weithgareddau ar dir preifat cyhyd â bod unrhyw fudd cyhoeddus yn amlwg yn drech nag unrhyw fudd preifat posib ac ar yr amod nad yw rheolau rheoli cymorthdaliadau'n

cael eu torri.

Er enghraifft, gallem ariannu gwaith adfer gwrychoedd neu greu pyllau ar fferm, ar yr amod nad ydynt yn ychwanegu gwerth ariannol at y tir nac yn cyfleu unrhyw fudd ariannol anuniongyrchol sylweddol a allai dorri rheolau rheoli cymorthdaliadau.

Wrth weithio ar dir preifat, rydym yn deall y gall fod cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn annog mynediad cyhoeddus pryd bynnag y bo'n ymarferol. Rydym hefyd yn cydnabod efallai na fydd mynediad ffisegol bob amser yn briodol nac yn ddymunol am resymau cadwraeth cynefinoedd. Os yw mynediad gwell yn bosib, efallai y byddwch hefyd eisiau gwneud cais am ariannu ar gyfer seilwaith newydd, er enghraifft llwybrau neu guddfannau, a all helpu i ddarparu mwy o fynediad i'r cyhoedd.

Gall gwaith gael ei wneud ar dir sy'n eiddo i adran o'r llywodraeth neu gorff hyd braich ar yr amod nad ydynt yn elwa'n ariannol o unrhyw fuddsoddiad.?Pe bai elusen neu bartneriaeth amgylcheddol yn gwneud gwaith ar y fath dir, gall fod dim ond ar gyfer gwaith na fyddai'n dod o dan unrhyw gyfrifoldeb statudol.

## Perchnogaeth ar eiddo

### Tir ac adeiladau ar gyfer gwaith cyfalaif

Rhaid i chi naill ai fod yn berchen ar y rhydd-ddaliad neu â phrydles sy'n bodloni'r gofynion canlynol:

- **sefydliad nid-er-elw:** rhaid bod 10 mlynedd yn weddill ar eich prydles ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **perchenog preifat:** rhaid bod o leiaf 10 mlynedd yn weddill ar eich prydles ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **nid ydym** yn derbyn lesau sydd â chymalau torri (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i un neu fwy o bartion y les ddod â'r les i ben o dan rai amgylchiadau)
- nid ydym yn derbyn lesau sydd â fforffediad ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r les i ben os bydd y tenant yn mynd yn fethdalwr)
- Mae'n **rhaid i chi** fedru gwerthu, morgeisio neu is-osod y cyfan neu ran o'ch les, ond os byddwn yn dyfarnu grant i chi, rhaid i chi gael caniatâd gennym ni'n gyntaf i wneud unrhyw un o'r rhain

### Tir neu adeiladau sy'n eiddo i drydydd parti

Os yw trydydd parti yn berchen ar y tir (a all gynnwys partner yn y prosiect) byddwn naill ai'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r perchenog ymrwymo'n uniongyrchol i'ch contract grant gyda ni neu'n ei gwneud hi'n ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gyda'r perchenog.

Expand All accordions

## Cymorth ac adnoddau pellach

- i gael cymorth technegol neu gyda hygyrchedd, cysylltwch â'n tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk)
- mae ein canllaw arfer da yn rhoi cyngor ar amrywiaeth o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o ansawdd uchel, gan gynnwys cynnal gwerthusiad
- gall ein canllaw natur a thirweddau eich helpu i ddylunio a chyflwyno prosiectau
- mae datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu'r heriau a'r mentrau allweddol sy'n digwydd ym mhob ardal o Gymru

- Ar gyfer gweithgareddau ar safle gwarchodedig neu'n agos ato, dylid ceisio cyngor ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gyrrwch e-bost [sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) i gael cyngor ar amcanion rheoli a chaniatadau/cydsyniadau.
- gall y Map Rhwydweithiau Natur helpu wrth gyfeirio lleoliad gweithgareddau i ddatblygu cysylltedd ac mae ar gael trwy MapData a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru (WEIP):
  - MapDataCymru: [Cysylltedd Cynefin a Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth](#)
  - [Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru](#). Dewiswch 'archwilio' o'r brif ddewislen, yna cliciwch ar y tab 'Gwytnwch Ecosystem'.
- i gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich data ei brosesu o dan y rhaglen grant hon, [gweler ein polisi preifatrwydd???????](#)

[Expand All accordions](#)

## Gwneud cwyn

Rydym yn deall efallai y bydd penderfyniad yn peri siom i chi.?Gyda'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, nid oes hawl i apelio nac ailymgeisio.

Ni allwn ond adolygu ein penderfyniad os byddwch yn gwneud cwyn ffurfiol am sut yr ydym wedi ymdrin â'ch cais. Mae gennym broses gwynion dau gam ar gyfer y gronfa hon. Ni fyddwn ond yn gallu ystyried ac ymchwilio i'r g?yn os gallwch ddangos y canlynol:

- ni fu i ni ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer asesu eich cais
- rydym wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais
- ni fu i ni gymryd gwybodaeth berthnasol i ystyriaeth

Mae'n rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig drwy yrru e-bost i [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk) o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y penderfyniad ar eich cais. Anelwn at gydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu yn y lle cyntaf gan Gyfarwyddwr ardal/gwlad Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n annibynnol ar y paneli argymhell a phenderfynu ar gyfer y gronfa hon.?Anelwn at gyfathrebu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg y gwnaethoch gyflwyno'ch cwyn.

I gael cymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk).

## Newidiadau i'r arweiniad hwn

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosib trwy'r dudalen we hon.?

**Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri) yn cael ei chyflwyno gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.**

# Nodiadau cymorth ymgeisio: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri)

## See all updates

Mae'r arweiniad ymgeisio hwn ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri), am grantiau rhwng £50,000 a £250,000.

Crëwyd y dudalen: Medi 2023.

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r arweiniad hwn i'ch cynorthwyo wrth gwblhau ffurflen gais ar-lein am grant o dan £250,000.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

## Y Camau Cyntaf

- Bu i ni lansio [porth ymgeisio newydd ym mis Mawrth 2021](#). Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar y porth, bydd angen i chi gofrestru cyn cyflwyno cais.
- Os na allwch sefydlu eich cyfrif neu eich bod yn profi unrhyw anawsterau technegol, cysylltwch â: [investment-service-support@heritagefund.org.uk](mailto:investment-service-support@heritagefund.org.uk).
- Unwaith y bydd eich sefydliad wedi cofrestru, cliciwch ar 'Dechrau Cais Newydd' a dewiswch y botwm 'Grantiau £10,000 i £250,000'. Yna cliciwch ar 'Dechrau Cais Newydd'.
- Os byddwch yn penderfynu copio a gludo testun o ddogfen Word yn uniongyrchol i'ch ffurflen gais, adolygwch eich cais cyn ei gyflwyno a gnewch newidiadau lle bo angen er mwyn sicrhau nad ydych yn mynd dros y terfynau geiriau a nodir. Bydd modd i chi gadw'r ffurflen hon wrth i chi weithio arni.

## Cwestiynau

### Eich prosiect

Dywedwch wrthyn ni ba gyngor rydych wedi'i dderbyn wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

Ai hwn yw'r cais cyntaf aton ni gan eich sefydliad?

Atebwch 'ydy neu 'nac ydy'.

### Teitl y prosiect

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad #NNF3 yn nheitl eich prosiect. Er enghraiffit #NNF3 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr.

Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Dyma'r dyddiad yr ydych yn disgwyl dechrau ar eich prosiect. Dylai fod ar neu ar ôl **1 Ebrill 2024**.

Mae'n **rhaid** i'ch prosiect ddod i ben erbyn 1 Mawrth 2026, gan gynnwys yr holl adroddiadau ariannol a gwerthuso. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o brosiectau cynllunio prosiect yn para'n fyrrach na phrosiectau sy'n cyflwyno gwaith cyfalaf.

### Pam mae angen i'ch prosiect chi ddigwydd nawr?

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

### Ydy'r prosiect yn digwydd yn yr un lleoliad â chyfeiriad eich sefydliad?

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os nac ydy, gofynnir i chi gynnwys manylion cyfeiriad eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau ar safle neu dirwedd, rhowch gyfeirnod grid chwe digid yr Arolwg Ordnans ar gyfer pwynt canol ardal eich prosiect (er enghraifft: SK510072). Os ydych yn gweithio ar nifer o safleoedd, gwahanwch bob cyfeirnod grid gyda hanner colon (er enghraifft: SK510072; SX163777; TQ317842). Peidiwch â chynnwys unrhyw destun ychwanegol gyda'ch cyfeirnodau grid.

### Disgrifiwch eich syniad

Mewn uchafswm o 500 o eiriau, esboniwch beth mae eich prosiect yn bwriadu ei wneud ac ar beth y byddwch chi'n gwario'r arian. Dylech ddefnyddio'r ddau is-bennawd a ganlyn, gan ddibynnu a yw eich prosiect yn gyfalaf, yn ymwneud â chydnerthedd neu'r ddau.

Prosiectau Cyfalaf:

- Ar ba safle(oedd) fyddwch chi'n gweithio?
- Pa waith fyddwch chi'n ymgymryd ag ef ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfae targed)?

Prosiectau Cynllunio Prosiect:

- Ar ba safle(oedd) y byddwch chi'n cynllunio ar gyfer gweithredu yn y dyfodol?
- Pa waith fyddwch chi'n ei ymgymryd ag ef yn ystod y prosiect (er enghraifft, pa arolygon, ymgynghoriadau neu weithgareddau cynllunio)?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfae targed, partneriaid)?
- Sut fydd y cynllun yn ceisio gwella cyflwr a chydnerthedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?

### A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?

Atebwch gwestiynau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf yn ôl y drefn arferol, 'bydd' neu 'na fydd'.?

Dylech gyflwyno arolygon cyflwr a/neu ddogfennau/lesau perchnogaeth os oes gennych nhw.

### Oes angen caniatâd arnoch chi gan unrhyw un arall i wneud eich prosiect?

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'oes', 'nac oes' neu 'ddim yn si?r'. Mae'n rhaid i chi ddangos yn eich cais eich bod yn ymwybodol o'r caniatadau a'r trwyddedau perthnasol ar gyfer cyflwyno'ch prosiect, a'ch bod yn

gweithio tuag at gaffael y rhain.

### **Pa wahaniaeth a ddaw yn sgil eich prosiect?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

### **A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os ydy, esboniwch sut mae'r dreftadaeth mewn perygl.

### **A oes gan y dreftadaeth unrhyw ddynodiadau ffurfiol?**

Dewiswch unrhyw opsiynau o'r rhestr sy'n berthnasol i'ch treftadaeth.

### **Ydy eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth sy'n denu ymwelwyr?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

### **Pam mae eich prosiect yn bwysig i'ch cymuned?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

### **Pa fesurau fyddwch chi'n eu cymryd i gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a gostwng effeithiau amgylcheddol negyddol?**

Dylai'r ateb hwn ganolbwyntio ar weithgarwch y tu allan i'r gwaith gwella cynefinoedd ei hun. Er enghraifft: teithio, caffael neu wastraff. Darllenwch ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol am fwy o wybodaeth.

### **Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r prosiect ddod i ben?**

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am reoli a chynnal yr allbynnau ar ôl i'r prosiect ddod i ben, pa waith a pha fath o ganiatâd fydd eu hangen. Ar gyfer gwaith cyfalaf, dylai hyn fod yn gysylltiedig â chynllun rheoli a chynnal a chadw. Os nad oes gennych gynllun ar hyn o bryd, gellir cynnwys hwn yng ngweithgarwch eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau cynllunio prosiect:

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am symud y prosiect ymlaen i'r cam cyflwyno. Beth fydd ei angen i wneud hyn?

### **Pam mai eich sefydliad chi yw'r un gorau i gyflwyno'r prosiect hwn?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

### **A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'bydd' neu 'na fydd'.

Os ateboch 'bydd', rhaid i chi atodi'ch cytundeb partneriaeth a nodi y gellir gofyn i bartneriaid ffurfiol ymrwymo i'n telerau grant.

## Canlyniadau

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth yr ydym am ei wneud gyda'n hariannu trwy set o naw canlyniad, sy'n cynnwys ein chwe chanlyniad blaenoriaeth. Mae canlyniadau'n newidiadau, effeithiau neu fuddion sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r ariannu hwn.

Y canlyniadau **gorfodol** ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri) yw:

- bydd ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth
- bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell

Mae'n **rhaid** i chi ymdrin â'r **ddau ganlyniad** yn eich cais.

Disgwyliwn i ymatebion fod yn gymesur â swm y grant y gofynnir amdano.

Os yw'n berthnasol i'ch prosiect, gallwch hefyd ymateb i:

- Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth

### Sut fydd eich prosiect yn cynnwys amrywiaeth ehangach o bobl?

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd eich proffil o ran cynulleidfa neu wifoddolwyr wedi newid drwy'r prosiect neu, os mai cais am gynllunio prosiect yw hwn, sut y byddai'n newid mewn prosiect yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda phartneriaid neu sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfa oedd sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- cefnogi unigolion newydd i gyrchu'r sector trwy swyddi, hyfforddiant a/neu brentisiaethau

Dylid cynnwys dystiolaeth i gefnogi'ch cynlluniau chi.

### Sut fydd eich prosiect yn helpu i wella cyflwr treftadaeth?

Esboniwrch sut fydd eich prosiect yn gwella cyflwr y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Er enghraifft, disgrifiwrch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella rheolaeth ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchodedig, esboniwrch sut fydd eich prosiect yn dod â gwerth i'r rhwydwaith yn y tymor hir. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Map Rhwydweithiau Natur am dystiolaeth o sut y bydd lleoliad gweithgareddau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig yn datblygu cysylltedd. Mae hyn ar gael trwy MapData a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru (WEIP):

- MapDataCymru: [Cysylltedd Cynefin](#) a [Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth](#)
- [Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru](#). Dewiswrch 'archwilio' o'r brif ddewislen, yna cliciwch ar y tab 'Gwytnwch Ecosystem'.

### A fydd eich prosiect yn cyflawni unrhyw un o'n canlyniadau eraill?

Gadewch hyn yn wag, ni fyddwn yn asesu unrhyw ganlyniadau eraill ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri).

## Rheoli eich prosiect

### Sut fydd eich prosiect yn cael ei reoli?

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

### Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich prosiect?

Rydym yn argymhell i chi ymgorffori gwerthuso o ddechrau eich prosiect. Po fwyaf gofalus y mae prosiectau'n cyllidebu ar gyfer eu gwerthusiad, yr uchaf fydd ansawdd yr adroddiad terfynol. Rydym wedi argymhell lleiafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn [ein canllaw gwerthuso](#).

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, sydd i'w gyflwyno cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant
- Holiadur gwerthuso, o fewn blwyddyn ar ôl cwblhau. Gallwch weld yr wybodaeth y byddwn am i chi ei hadrodd yn ein [canllaw gwerthuso](#).

### Sut ydych chi'n bwriadu cydnabod eich grant?

Fel rhan o'ch grant gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i chi gydnabod eich ariannu ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ddatganiadau i'r wasg, a thrwy arddangos ein logo partneriaeth. Darllenwch ein [Canllaw cydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru](#).

### Dywedwch wrthyn ni am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflwyno'ch prosiect

Atebwch yn ôl y drefn arferol. Os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau, rhaid i chi atodi'r disgrifiadau swydd perthnasol.

## Costau'r prosiect

Cyfeiriwch at adran 'Paratoi eich cais' yr [arweiniad ymgeisio](#) i sicrhau bod costau eich prosiect yn rhai cymwys.

At ddibenion monitro, mae'n bwysig i chi wahaniaethu rhwng costau cyfalaf a refeniw yn eich tabl costau. I wneud hyn, rhowch nhw ar linellau ar wahân ac ychwanegwch 'Cyf' neu 'Ref' ar ddechrau pob disgrifiad cost. Er enghraifft, os ydych yn gwneud cais am £10,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gwaith cyfalaf, a £5,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, dylai eich tabl edrych fel hyn:

Enghraifft o dabl costau

Pennawd cost	Disgrifiad o'r gost	Swm
Ffioedd proffesiynol	CYF contractwyr i adeiladu cuddfan adar	£10,000
Ffioedd proffesiynol	REF gweithwyr llawrydd i gyflwyno rhaglen weithgareddau	£5,000

Mae'n bwysig nad yw'r costau rydych yn gofyn i ni eu talu'n gyfystyr â chymhorthdal anghyfreithlon i chi. Gwiriwch adran 'Gwybodaeth Ychwanegol' yr [arweiniad ymgeisio](#) am fanylion pellach.

## Cefnogaeth dros eich prosiect

### Ydych chi'n derbyn unrhyw gyfraniadau arian parod at eich prosiect?

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydym' neu 'nac ydym'.

Noder: Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau arian parod at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau arian parod y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

### Ychwanegu cyfraniad nad yw'n arian parod

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau nad ydynt yn arian parod at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

## Gwirfoddolwyr

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau o ran gwirfoddolwyr at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau o ran gwirfoddolwyr y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

## Tystiolaeth o gefnogaeth

Atebwch yn ôl y drefn arferol. Uwchlwythwch lythyrau, e-byst neu fideos o gefnogaeth fel y bo'n briodol ar gyfer eich prosiect.

## Dogfennau ategol

Mae'n rhaid i'r dogfennau ategol a ganlyn gael eu huwchlwytho ar ddiwedd eich ffurflen gais. Dylai maint y ffeiliau fod yn llai na 20MB.?Noder bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.?

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol arnom:

- dogfen lywodraethu (gorfodol os oes gan eich sefydliad un o'r rhain)
- cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych yn sefydliad)
- cynllun prosiect (gorfodol ar gyfer pob prosiect) – [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#)
- cytundeb partneriaeth (gorfodol os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (gorfodol os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)?
- delweddu, gan gynnwys o leiaf un map sy'n dangos lleoliadau gwaith cyfalaf?
- cyfrifo adennill costau llawn (os yn berthnasol)?
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)

# FAQs: Nature Networks Fund (round three)

[See all updates](#)

Answers to questions raised by attendees during a pre-application webinar for the Nature Networks Fund (round three), held on Tuesday 10 October 2023.

**Page created:** 17 October 2023.

**The speakers are:**

- Moe Horikaw, Investment Manager, Wales, National Lottery Heritage Fund (Presenter)
- Julie Hughes, Head of Investment, Wales, National Lottery Heritage Fund
- Jim Latham, Natural Resources Wales/Cyfoeth Naturiol Cymru
- Kirsty Lindenbaum, Natural Resources Wales/Cyfoeth Naturiol Cymru

## FAQs arising from the webinar

Attendees at the webinar raised a series of questions, which we have answered below.

The answers to several questions raised can be found by reading the [guidance](#). Please read the [guidance](#) and the [help notes](#) carefully before applying.

**If a project is largely a capacity building project, can there still be small elements of capital spend within it, or can there not be any capital at all if you are submitting a capacity building project?**

Yes, you can include it. The focus of those grants should be around capacity, but if that is things like pilot projects, which will give you knowledge to do a bigger project in the future, then those sorts of capital costs can be included.

**Can you purchase land with the funding?**

No.

**Does an Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) count as a protected site under these criteria?**

No, it does not. However, your project may ultimately help/support an AONB, as work can happen around or across sites.

**What is the revenue/capital split available this round?**

There is a split of 66% revenue and 34% capital available.

## **How many applications can an organisation make if they are included in a joint application or partners in an application?**

We would be looking at one per the main/lead applicant organisation. So if you are the joint or partner in the application you may be included in multiple.

## **Is this the final round of funding or will there be future rounds available?**

At this stage we can only guarantee this round of funding.

## **Can statutory land be included in an application?**

The inclusion of statutory land is ok. However, what we can't fund is statutory responsibility, so from the application we'll need to know what that work is and why you require getting a grant to do it as opposed to it being attached to responsibility that should be funded elsewhere.

## **Can we match fund current Nature Networks projects with this round?**

No, however you can submit a separate project application even if you have had previous Nature Networks funding or are currently delivering a project under the previous rounds.

## **Why is the application window so short?**

